
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Hawdd ei Ddeall

# Adroddiad Blynyddol 2025-2026

**Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** yn cynnal gwiriadau i sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.




Rydyn ni wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-2026. Mae'r adroddiad hwn yn esbonio ein gwaith a'r pethau y gwnaethon ni eu canfod yn ystod 2025 i 2026.

**Geiriau anodd**

Mae **geiriau anodd** yn ymddangos yn **las.** Rydyn ni'n eu hesbonio mewn blwch glas o dan y frawddeg. Gallwch chi hefyd weld yr holl eiriau anodd ar dudalen 10.

## Ein gwaith yn 2025-2026



Gwnaethon ni ymweld â 216 o wasanaethau gofal iechyd.

- Roedd 79 o'r rhain yn wasanaethau'r GIG.




- Roedd 137 o'r rhain yn **wasanaethau gofal iechyd annibynnol**.

**Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol** yw gwasanaethau sydd ddim yn cael eu rhedeg gan y GIG. Gall hyn gynnwys rhai clinigau, ysbytai, gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau iechyd meddwl.



Gwnaethon ni wrando ar:

- 4,407 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, a'r cyhoedd.




- 1,628 o staff gofal iechyd.



Gwnaethon ni glywed gan 2,353 o bobl am ein **strategaeth**.




Cynllun yw **strategaeth**. Mae'n esbonio beth rydyn ni am ei wneud a sut byddwn ni'n ei wneud.

Gwnaethon ni ddelio â 705 o achosion **cofrestru**.




**Cofrestru** yw pan fydd gwasanaeth gofal iechyd annibynnol yn gwneud cais i gael ei gymeradwyo gan AGIC er mwyn iddo allu darparu gwasanaethau penodol.



- Gwnaethon ni gymeradwyo 285 o **gofrestriadau**.




- Cafodd 57 o wasanaethau eu **datgofrestru**.




Mae **datgofrestru** yn golygu nad yw gwasanaeth gofal iechyd annibynnol wedi'i gofrestru gydag AGIC mwyach, fel arfer am ei fod wedi cau neu am nad yw'n darparu gwasanaethau gofal iechyd rheoleiddiedig mwyach.




Mae 771 o wasanaethau gofal iechyd wedi cofrestru â ni erbyn hyn.



Gwnaethon ni dderbyn 783 o **bryderon**, 40 yn fwy na'r llynedd

**Pryder** yw pan fydd rhywun yn dweud wrthon ni am rywbeth sy'n anghywir, yn anniogel, neu ddim yn ddigon da mewn gwasanaeth gofal iechyd yn eu barn nhw.




Gwnaethon ni glywed am bryderon am:

- amseroedd aros




- mynediad at wasanaethau gofal iechyd



- gofal iechyd meddwl



- prinder staff.



## Beth wnaethon ni ei ganfod

Mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru o dan bwysau.



- Mae llawer o bobl yn aros am amser hir am driniaeth neu'n cael trafferth cael gwasanaethau.




- Mae staff gofal iechyd yn rhoi gofal a chymorth da i gleifion.




- Mae rhai gwasanaethau wedi gwneud gwelliannau, ond mae cynnydd weithiau'n araf a dydy rhai gwelliannau ddim yn para.



- Dydy pob gwasanaeth ddim yn darparu gofal o'r un ansawdd. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael profiadau a chanlyniadau gwahanol.



- Mae nifer y **gwasanaethau gofal iechyd annibynnol** yng Nghymru yn parhau i dyfu.



- Mae rhai ysbytai iechyd meddwl yn hen ac mewn cyflwr gwael. Gall hyn ei gwneud yn anoddach i bobl gael gofal da.



- Does dim digon o staff mewn llawer o wasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n fwy anodd darparu gwasanaethau.




- Mae angen i rai gwasanaethau gofal iechyd wella sut maen nhw'n rheoli meddyginiaethau, yn cadw cofnodion, yn adnabod risgiau ac yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n ddiogel.




- Dydy pobl ddim yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg bob amser, a dydy'r cymorth i siaradwyr Cymraeg ddim yr un fath ym mhob un o wasanaethau'r GIG.



## Sut gwnaethon ni gymryd camau gweithredu

Gwnaethon ni gymryd camau pan wnaethon ni ddod o hyd i broblemau difrifol mewn gwasanaethau gofal iechyd.



- Gwnaethon ni weithio gyda gwasanaethau gofal iechyd, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill pan ddaethon ni o hyd i broblemau difrifol.




- Dechreuon ni **ymchwiliadau troseddol**.

**Ymchwiliad troseddol** yw pan fydd yr heddlu neu sefydliad swyddogol arall yn ymchwilio i rywbeth difrifol iawn i ddarganfod a oes trosedd wedi cael ei chyflawni.



- Cafodd **cofrestriad** dau wasanaeth gofal iechyd annibynnol ei ganslo.

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



Mae **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** yn golygu gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn barchus, beth bynnag fo'u cefndir, eu hunaniaeth neu eu hamgylchiadau.



Y flwyddyn hon, gwnaethon ni:

- Gynnal gwiriadau i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn hygyrch ac yn **gynhwysol**.



Mae **cynhwysol** yn golygu bod pawb yn gallu cymryd rhan.

- Gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am brofiadau pobl.



- Gwrando ar bobl o gymunedau a chefndiroedd gwahanol.



- Rhoi hyfforddiant i helpu ein staff i ddeall profiadau pobl yn well.



- Parhau i wella'r ffordd mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu cynnwys yn ein gwaith.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

- Parhau i arolygu gwasanaethau’r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.



- Parhau i wrando ar gleifion, teuluoedd, gofalwyr a staff gofal iechyd.



- Cymryd camau gweithredu pan fyddwn ni'n dod o hyd i risgiau i ddiogelwch cleifion.



- Helpu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



- Datblygu ffyrdd newydd o arolygu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

# Geiriau anodd

**Geiriau anodd**

Efallai y bydd yn anodd deall rhai o'r geiriau yn y ddogfen hon. Mae'r dudalen hon yn esbonio beth yw ystyr y geiriau hynny mewn ffordd syml.




### Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol

**Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol** yw gwasanaethau sydd ddim yn cael eu rhedeg gan y GIG. Gall hyn gynnwys rhai clinigau, ysbytai, gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau iechyd meddwl.




### Strategaeth

Cynllun yw **strategaeth**. Mae'n esbonio beth rydyn ni am ei wneud a sut byddwn ni'n ei wneud.

## Cofrestru




**Cofrestru** yw pan fydd gwasanaeth gofal iechyd annibynnol yn gwneud cais i gael ei gymeradwyo gan AGIC er mwyn iddo allu darparu gwasanaethau.

## Datgofrestru




Mae **datgofrestru** yn golygu nad yw gwasanaeth gofal iechyd annibynnol wedi'i gofrestru gydag AGIC mwyach, fel arfer am ei fod wedi cau neu am nad yw'n darparu gwasanaethau gofal iechyd rheoleiddiedig mwyach.

## Pryder



**Pryder** yw pan fydd rhywun yn dweud wrthon ni am rywbeth sy'n anghywir, yn anniogel, neu ddim yn ddigon da mewn gwasanaeth gofal iechyd yn eu barn nhw.

## Ymchwiliad troseddol




**Ymchwiliad troseddol** yw pan fydd yr heddlu neu sefydliad swyddogol arall yn ymchwilio i rywbeth difrifol iawn i ddarganfod a oes trosedd wedi cael ei chyflawni.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



Mae **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** yn golygu gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn barchus, beth bynnag fo'u cefndir, eu hunaniaeth neu eu hamgylchiadau.

## Cynhwysol



Mae **cynhwysol** yn golygu bod pawb yn gallu cymryd rhan.

# Sut i gysylltu ag AGIC

**Drwy'r post**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Drwy e-bost**

agic@llyw.cymru

**Dros y ffôn**

0300 062 8163

© Hawlfraint y Goron 2026 WG40002 ISBN Digidol 978-1-80853-356-3